Cytundeb Rhieni a Thelerau ac Amodau
Meithrinfa Dwylo Da Cyf.

RHAN A
Mae'r cytundeb yma rhwng:

Meithrinfa Dwylo Da, Heol Buddug, Penygroes, Caernarfon. LL54 6HD a

o .

Enw/Enwau'r Plentyn neu Blant					
Oriau mynychu (ticiwch fel bo'n addas)	Llun am pm	Mawrth am pm	Mercher am pm	Iau am pm	Gwener am pm
Ffioedd Cyfredol	£53 y diwrnod (£43 hanner diwrnod) – byddwch yn derbyn anfoneb ar y 25ain o bob mis, i'w dalu erbyn yr 7fed o'r mis canlynol.				
Cyfnod rhybudd sydd ei angen i derfynu'r cytundeb	4 wythnos (boed hynny'n rybudd gennych chi'r rhiant/gwarchodydd neu gennym ni yn Dwylo Da)				

Arwyddwyd …….... ar ran Meithrinfa Dwylo Da

Arwyddwyd …….. Rhiant/Gwarchodydd

Dyddiad: ……..

Cytundeb i dalu ffioedd

Enw'r plentyn……

Enw'r Rhiant/Gwarchodydd ……

Person sy'n gyfrifol am dalu'r ffioedd……

Enw……

Cyfeiriad……

……

…… Côd post……

Rhif ffôn:

Dydd/gwaith……

Ffôn symudol ……

Rwyf drwy hyn yn cytuno i dalu'r ffioedd ar gyfer y plentyn uchod ar y dyddiad maent yn ddyledus.

Arwyddwyd……

Dyddiad……

Dull talu dewisol *(rhowch gylch)*:

Debyd uniongyrchol	Siec	Talebau Gofal Plant/ Gofal Plant di-dreth
Arall- manylwch		

RHAN B – TELERAU AC AMODAU

1. **Diffiniadau**
   1.1 Mae'r diffiniadau isod yn berthnasol yn y telerau ac amodau hyn.

"Plentyn" y plentyn neu blant sy'n cael eu henwi yn Rhan A;

"Chi" y person, neu gwmni sy'n prynu'r Gwasanaeth gennym ni;

"Gwasanaethau" gwasanaethau meithrinfa dydd yn ystod y dyddiau neu'r hanner dyddiau sydd wed eu nodi yn Rhan A (*ac eithrio gwyliau cyhoeddus a gwyliau'r banc) ynghyd ag unrhyw wasanaethau rydym yn eu darparu, neu yr ydym yn cytuno gyda chi i'w darparu;

"Ni" y Feithrinfa a enwir yn Rhan A

1.2 Mae unrhyw gyfeiriad at ysgrifennu atoch yn medru bod ar ffurf llythyr, e-bost neu neges destun.

1.3 Mae unrhyw ofyniad yn y cytundeb hwn i unrhyw barti beidio â gwneud unrhyw beth yn golygu ymrwymiad i beidio a gwneud hynny.

2. **Ffurfio'r cytundeb**

2.1 Bydd cytundeb ar gyfer y gwasanaeth wedi ei ffurfio rhyngoch chi a ni unwaith eich bod wedi cyflwyno y ffurflen gofrestru wedi ei chwblhau'n llawn a'i harwyddo i Dwylo Da a bod Dwylo Da wedi cadarnhau yn ysgrifenedig gyda chi bod eich cais am le wedi bod yn llwyddiannus.

2.2 Mae'r telerau ac amodau yma yn llywodraethu'r cytundeb rhyngoch chi a ni ar gyfer y gwasanaethau. Ni fydd unrhyw delerau eraill yn berthnasol oni bai eu bod wedi eu cynnwys mewn :

2.2.1 Llawlyfr a roddwyd i chi gennym ni

2.2.2 Polisi a roddwyd i chi gennym ni

2.2.3 Llythyr wedi ei arwyddo gennych chi a ni.

2.3 Mewn achos o unrhyw ansicrwydd ynglyn a pha delerau sy'n berthnasol, y telerau ac amodau yma fydd yn berthnasol.

3. **Hyd y cytundeb**

3.1 Bydd y cytundeb yn parhau hyd nes iddo gael ei derfynu gennych chi neu gennym ni, mewn rhybudd ysgrifenedig, o leiaf 4 wythnos. Fodd bynnag, gall y cytundeb, o dan rhai amgylchiadau, gael ei derfynu yn syth o dan gymal 18.

3.2 Rydych yn gyfrifol am y ffi llawn yn ystod y cyfnod rhybudd hyd yn oed os na fydd y plentyn yn mynychu Dwylo Da.

3.3 Byddwch yn derbyn y bil ar gyfer y 4 wythno rhybudd wrth i chi gyflwyno'r rhybudd.

4. **Gohirio'r Gwasanaethau**

Gall gwasanaethau gael eu gohirio (gan olygu na fydd y plentyn yn medru mynychu'r feithrinfa dros dro) o dan yr amodau sydd wedi eu gosod allan yng nghymal 18.

5. **Ein Rhwymedigaethau**

5.1 Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu'r gwasanaethau i chi, yn unol â'r telerau ac amodau hyn ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir tuag atynt yn 2.2 uchod.

5.2 Rydym yn croesawu staff a phlant o lawer o wahanol gefndiroedd a grwpiau ethnig. Mae hawliau a rhyddid dynol yn cael eu parchu a byddwn yn gwneud popeth sy'n rhesymol i sicrhau bod ein diwylliant, ein polisïau a'n gweithdrefnau yn hygyrch i blant ag anableddau ac i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cymdeithasol a moesol o dan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn diwallu anghenion plant, ymgeiswyr ac aelodau staff ag anableddau y gallwn, ar ôl addasiadau rhesymol, ddarparu'n ddigonol ar eu cyfer

5.3 Os byddwn yn penderfynu, yn ôl ein disgresiwn llwyr (ar ôl dadansoddiad priodol a rhesymol) na ellir gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer plentyn ac o'r herwydd ni allwn barhau i ddarparu'n ddigonol ar gyfer y plentyn hwnnw (na'u derbyn os mai dyma'r achos) yna byddwn yn gwneud hynny ac yn gofyn i chi dynnu'r plentyn yn ôl heb godi ffioedd yn lle rhybudd.

6. **Eich Rhwymedigaethau**

6.1 Rhaid i chi:

6.1.1 Gydweithredu â ni;

6.1.2 Ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd yn rhesymol ofynnol i ni ofyn amdano ar gyfer y plentyn yn cynnwys:-

6.1.2.1 Unrhyw gyflwr meddygol hysbys, problem iechyd, alergedd neu ofyniad dietegol sydd wedi'i ddiagnosio;

6.1.2.2 Unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn;

6.1.2.3 Unrhyw frechiad y byddai'r plentyn fel arfer yn ei gael erbyn ei oedran ond heb ei dderbyn;

6.1.2.4 Unrhyw amgylchiadau teuluol neu orchmynion llys sy'n effeithio ar y plentyn;

6.1.2.5 Unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y plentyn;

6.1.2.6 Eich manylion cyswllt, a manylion unigolyn/unigolion sydd ag awdurdod i gasglu'r plentyn.

6.2 Rhaid i chi (a) sicrhau bod y manylion hyn yn gywir a (b) cadw'r manylion hyn yn gyfredol, trwy ein hysbysu'n ysgrifenedig yn brydlon pryd bynnag y byddant yn newid.

6.2.1 O ran danfon a 'nol y plentyn, cyfeiriwch at Bolisi Cyrraedd a Gadael y Feithrinfa. Gofynnwch am gopi ohono os oes angen.

6.3 Os yw ein perfformiad o'n rhwymedigaethau o dan y cytundeb yn cael ei atal neu ei oedi gan unrhyw beth rydych chi'n ei wneud (neu'n methu ei wneud), ni fyddwn yn atebol.

6.4 Ni fyddwch yn cyflogi (nac yn ceisio cyflogi) unrhyw aelod o'n staff heb ein caniatâd hyd nes y bydd chwe mis wedi pasio o ddiwedd y cytundeb hwn.

7. Taliadau

7.1 Rhaid i chi dalu'r taliadau fel y'u nodir yn Rhan A.

7.2 Lle na all y plentyn fynychu ond bod ein gwasanaeth yn parhau i fod ar gael, bydd taliadau llawn yn ddyledus.

7.3 Byddwn yn codi tâl am wyliau banc a / neu ddyddiau hyfforddi staff.

7.4 Ni chodir TAW ar ffioedd y feithrinfa (mae darpariaeth meithrinfeydd yn gyflenwad eithriedig at ddibenion TAW).

7.5 Mae'r taliadau a ddyfynnir fesul plentyn, fesul diwrnod craidd neu hanner diwrnod ac maent yn cynnwys brecwast, cinio a the bach.

7.6 Codir tâl am sesiynau ychwanegol ar y graddfeydd arferol a rhaid eu harchebu a'u talu yn unol a'r drefn anfonebu.

7.7 Rhaid talu'r taliadau yn unol a'n trefniadau talu:-

Pan fo plentyn yn cychwyn, bydd y bil hyd at ddiwedd y mis y mae'r plentyn yn cychwyn ynddo wedi ei gyflwyno i chi a'i dalu gennych chi cyn i'r plentyn gychwyn yn y Feithrinfa.

Byddwn yn cyflwyno yr ail fil a phob bil wedi hynny ar y 25ain (neu oddeutu) o'r mis a disgwylir i'r biliau gael eu talu erbyn y 7fed o'r mis canlynol.

7.8 Fel rheol rhaid gwneud pob taliad trwy dalebau debyd uniongyrchol neu dalebau gofal plant. Efallai y byddwn yn cytuno i daliad gyda siec ond eich cyfrifoldeb chi yw cael derbyneb gan Reolwr y feithrinfa fel prawf o daliad. Ni ystyrir bod unrhyw daliad wedi'i wneud nes iddo gael ei glirio i'n cyfrif banc. Os bydd siec yn bownsio, neu daliad yn methu, gallwn godi ffi weinyddu resymol (sydd yn £5 ar hyn o bryd).

7.9 Effalai y byddwn yn cynyddu ein taliadau yn achlysurol. Byddwn yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i chi o unrhyw gynnydd o'r fath o leiaf mis cyn dyddiad arfaethedig y cynnydd.

7.10 Heb gyfyngu ar unrhyw hawl gyfreithiol arall a allai fod gennym, os na fyddwch yn ein talu mewn pryd, gallwn:

7.10.1 Godi tâl llog o hyd at 1.5% y mis neu ran o'r mis am daliad hwyr. Oni bai ein bod wedi rhoi gwybod fel arall i chi, a hynny yn ysgrifenedig, bydd llog yn cronni bob dydd o'r dyddiad dyledus tan ddyddiad talu'r swm hwyr, boed hynny cyn neu ar ôl dyfarniad. Rhaid i chi dalu'r llog i ni ynghyd â'r swm hwyr. Yn ogystal, bydd gennym hawl i adennill swm llawn ein costau gweinyddol a chostau eraill a gafwyd wrth adennill unrhyw swm heb ei dalu, gan gynnwys costau cyfreithiol a thaliadau ar sail indemniad.

7.10.2 Atal yr holl wasanaethau nes bod y taliad wedi'i wneud yn llawn, a fydd yn cynnwys atal lleoliad y plentyn, neu hyd yn oed derfynu'r cytundeb yn barhaol.

7.11 Os oes arnoch chi unrhyw arian i ni, ac rydych yn gwneud hawliad yn ein herbyn, gallwn wneud iawn am yr hyn sy'n ddyledus i ni yn erbyn yr hyn yr ydych yn ei hawlio gennym.

8. Lleihau sesiynau

Mae'n ofynnol i chi roi rhybudd 4 wythnos yn ysgrifenedig, os ydych am ostwng y nifer o sesiynau rydych eu hangen ar gyfer y plentyn. Byddwch yn talu 4 wythnos arferol y plentyn yn ystod y rhybudd hwn.

9. Lles y Plentyn

9.1 Byddwn yn gwneud popeth sy'n rhesymol i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn ac i ddarparu gofal i'r safon sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn aml i safon llawer uwch.

9.2 Byddwn yn parchu hawliau dynol a rhyddid y plentyn ond mae'n rhaid eu cydbwyso, fodd bynnag, ag anghenion a rheolau cyfreithlon ein meithrinfa a hawliau a rhyddid eraill.

9.3 Byddwn yn gofyn i chi gydsynio ag unrhyw gyswllt corfforol a all fod yn gyfreithlon yn unol ag arfer da ac yn briodol ar gyfer addysgu a chyfarwyddo ac ar gyfer darparu

cysur i blentyn mewn trallod, neu i gynnal diogelwch a threfn dda, neu mewn cysylltiad ag iechyd a lles y plentyn.

9.4 Rhaid i rieni/gofalwyr plant sydd heb eu hyfforddi i ddefnyddio poti ddarparu cewynnau a weips.

9.5 Bydd llaeth o'r fron wedi'i labelu yn cael ei storio yn ddiogel a bydd man ar gael i famau fwydo eu babanod ar y fron neu dynnu llaeth o'r fron pe bai angen iddynt wneud hynny.

9.6 Lle bo modd dylai rhieni/gofalwyr ddarparu llaeth fformiwla sydd wedi ei selio ar gyfer babanod. Os nad yw hyn yn bosib dylai rhieni/gofalwyr ddarparu fformiwla wedi'i selio mewn cynhwysydd addas er mwyn i'r staff ei gymysgu. Bydd y staff yn darparu'r poteli llefrith pan ac fel sydd angen yn unol a'ch cyfarwyddiadau chi. Gofynnir i chi hefyd ddarparu un cyflenwad fformiwla sbar ar gyfer pob dydd i fod wrth gefn.

9.7 O ran technegau a sancsiynau cefnogi ymddygiad, cyfeiriwch at Bolisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol y feithrinfa.

9.8 Mae'r feithrinfa'n defnyddio gweithdrefnau brys ar gyfer damweiniau, gwacáu, digwyddiadau ac adweithiau alergaidd.

10. Iechyd a materion meddygol

10.1 Os bydd y plentyn yn mynd yn sâl yn ystod y sesiwn gofal bydd Rheolwr/Is-Reolwr y feithrinfa yn cysylltu â chi neu'r cyswllt brys a nodir ar y ffurflen gofrestru. Rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith o unrhyw newidiadau i'r manylion cyswllt hyn. Os oes angen sylw meddygol brys ar eich plentyn tra bydd o dan ein gofal, byddwn yn ceisio cysylltu â chi a chael eich caniatâd ymlaen llaw os yw'n ymarferol. Fodd bynnag, pe na allwn gysylltu â chi byddwn yn cymryd awdurdod i wneud y penderfyniad ar eich rhan pe bai angen caniatâd ar gyfer triniaeth frys a argymhellir gan feddyg (gan gynnwys anesthetig neu lawdriniaeth, neu drallwysiad gwaed) oni bai eich bod wedi ein hysbysu ymlaen llaw eich bod yn gwrthwynebu trallwysiadau gwaed)).

10.2 Os yw'r Plentyn yn dioddef o salwch trosglwyddadwy, ni ddylid dod ag ef i'r feithrinfa nes bod yr haint wedi clirio.

10.3 Rhaid i chi hysbysu Rheolwr y feithrinfa os yw'r plentyn yn absennol o'r feithrinfa oherwydd salwch.

10.4 Yn unol a chyfarwyddiadau Adran Iechyd y Cyhoedd, os yw'r plentyn wedi'i anfon adref o'r feithrinfa oherwydd afiechyd trosglwyddadwy bydd gofyn i chi ddilyn y canllawiau priodol.

10.5 Yn unol a chyfarwyddiadau Adran Iechyd y Cyhoedd, ni fydd plentyn sydd a haint taflu i fyny neu sydd a haint dolur rhydd yn cael mynychu'r Feithrinfa am 48 awr.

10.6 O ran meddyginiaeth a'i gyflwyno i blentyn, cyfeiriwch at Bolisi Cyflwyno Meddyginiaeth y Feithrinfa.

10.7 Gweler hefyd gymal 6.1.2 ar faterion y mae'n rhaid i ni gael gwybod amdanynt.

11. Anghenion Bwyd a Deiet

11.1 Byddwn yn gweithio gyda chi i ddarparu bwyd addas i'ch plentyn os oes gan eich plentyn ofyniad dietegol arbennig neu unrhyw alergeddau fel y'u diagnosiwyd gan feddyg neu ddietegydd. Cymerir pob gofal rhesymol i sicrhau nad yw eich plentyn yn dod i gysylltiad â rhai bwydydd gyda chefnogaeth rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allanol pe bai'r angen yn codi.

11.2 Bydd bwydlenni'n cael eu harddangos i'w harchwilio, a gall rhieni a phlant drafod eu cynnwys gyda'r Rheolwr neu'r Is-Reolwyr lle bo angen.

11.3 Ni fydd unrhyw becyn cinio sydd wedi ei ddarparu gan rieni/gofalwyr yn cael eu cynhesu gennym ni.

12. Gwneud cyfeiriad am esgeulustod neu gamdriniaeth

Mae'n rheidrwydd arnom i roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol am unrhyw amheuon sydd gennym fod eich plentyn wedi dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth, a lle bo angen, gallwn wneud hynny heb eich caniatâd a / neu heb eich hysbysu.

13. Cyfyngiad atebolrwydd

13.1 Mae'r cymal hwn yn nodi ein hatebolrwydd i chi (a'n gweithwyr, asiantau, ymgynghorwyr ac isgontractwyr) mewn perthynas â'r cytundeb (gan gynnwys unrhyw doriad ohono, unrhyw ddatganiad a wnawn i chi amdano, ein terfyniad ohono).

13.2 Mae'r holl delerau a awgrymir gan y gyfraith, i'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, wedi'u heithrio neu eu dileu o'r cytundeb.

13.3 Nid oes unrhyw beth yn yr amodau a thelerau hyn mewn unrhyw ffordd yn cyfyngu ar ein hatebolrwydd am dwyll, nac am farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o esgeulustod.

13.4 Ni fyddwn yn atebol am:

13.4.1 Unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw deganau, offer neu fagiau, dillad ac ati y gallwch ddod â nhw i'n meithrinfa;

13.4.2 Colli unrhyw elw, neu golled ganlyniadol; neu unrhyw golled anuniongyrchol arall; a

13.5 Yn ddarostyngedig i gymal 13.3 bob amser, bydd cyfanswm ein rhwymedigaeth (mewn cytundeb, camwedd gan gynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol, neu fel arall) yn gyfyngedig i'r pris sydd wedi ei gronni a dalwyd gennych am y gwasanaethau yn ystod y cytundeb.

14. Diogelu data

14.1 Efallai y byddwn yn tynnu lluniau a / neu fideos o'ch plentyn at ddibenion hyrwyddo neu hyfforddi yn unig. Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn gael ei gynnwys mewn ffotograffau neu fideos o'r fath, rhowch wybod i ni trwy lenwi'r "Ffurflen Tynnu Llun eich Plentyn i bwrpas neilltuol" o'r Llawlyfr.

14.2 Ymdrinnir ag unrhyw ddata personol sy'n gysylltiedig â chi neu'ch plentyn yn unol â'n hysbysiad Polisi Cyfrinachedd/GDPR, sydd i'w weld yn ein Llawlyfr.

15. Diogelwch

Mae croeso i rieni/gofalwyr ymweld â'r feithrinfa, ond ni fyddwn yn rhoi mynediad i unrhyw un heb roi gwybod ymlaen llaw. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau ein bod yn ymwybodol o bwy fydd yn casglu'ch plentyn. Ni chaniateir i unrhyw blentyn adael yr adeilad gydag unrhyw berson nad yw wedi cael ei hysbysu fel person awdurdodedig i gasglu'r plentyn ar eich rhan.

16. Cwynion a phryderon

Cyfeiriwch unrhyw gŵyn neu bryder at y Rheolwr/Is-Reolwr neu oruchwyliwr â gofal yn y lle cyntaf ac os na chaiff y mater ei ddatrys o fewn cyfnod rhesymol medrwch ddefnyddio'r drefn sydd yn y Polisi Cwyno neu Ddatgelu Pryder sydd i'w cael yn y Llawlyfr.

17. Terfynu am dorri cytundeb, neu fethdaliad / ansolfedd

17.1 Heb gyfyngu ar unrhyw hawliau cyfreithiol eraill a allai fod gan y partïon, caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r cytundeb heb atebolrwydd i'r llall ar unwaith wrth roi rhybudd ysgrifenedig i'r llall:

17.1.1 Mae'r parti arall yn methu â thalu unrhyw swm sy'n ddyledus o dan y cytundeb ar y dyddiad dyledus i'w dalu ac yn parhau i fod heb ei dalu am y 14 diwrnod neu fwy; neu

17.1.2 Mae'r parti arall yn cyflawni tor-cytundeb sylweddol o unrhyw un o delerau'r cytundeb ac (os gellir adfer toriad o'r fath) mae'n methu ag unioni'r tor-cytundeb hwnnw cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r parti hwnnw gael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r tor-cytundeb; neu

17.1.3 Mae'r parti arall yn atal, neu'n bygwth atal, talu ei ddyledion neu'n methu â thalu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus neu'n cyfaddef anallu i dalu

ei ddyledion neu bernir ei fod naill ai'n methu â thalu ei ddyledion neu fel un heb obaith rhesymol o wneud hynny, yn y naill achos neu'r llall, o fewn ystyr adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986.

17.2 Ar derfynu'r cytundeb am unrhyw reswm:

17.2.1 Rhaid i chi dalu ein holl anfonebau a llog sy'n ddyledus ar unwaith ac, mewn perthynas â'r gwasanaethau a gyflenwir ond na chyflwynwyd anfoneb ar eu cyfer, gallwn gyflwyno anfoneb, a fydd yn daladwy ar unwaith ar ôl ei derbyn; a

17.2.2 Bydd unrhyw gymal yn yr amodau a thelerau hyn y bwriedir iddynt i oroesi terfynu yn parhau mewn grym.

18. Digwyddiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth

18.1 Os bydd unrhyw ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth resymol (ee tân, llifogydd, epidemig neu bandemig, streic, achos sifil, gweithred o derfysgaeth, rhyfel ac ati) yn digwydd, y mae gennym yswiriant ymyrraeth busnes ar ei gyfer, gallwn gau'r feithrinfa heb atebolrwydd i chi ac ni fyddwn yn codi tâl arnoch am y ffioedd am yr amser y mae'r feithrinfa ar gau. Byddwn yn eich hysbysu, mewn digwyddiad o'r fath.

18.2 Os gorfodir y feithrinfa i gau am resymau y tu hwnt i reolaeth y feithrinfa neu os yw, yn ein barn resymol, yn angenrheidiol neu er budd y plentyn i wneud hynny, gallwn gau'r feithrinfa er na fydd ein hyswiriant ymyrraeth busnes yn talu allan i ni am y cau. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn codi tâl cadw 50% o'ch ffi misol reolaidd i alluogi'r feithrinfa i ddal lle eich plentyn a sicrhau ein bod yn parhau i allu talu am ein costau parhaus na ellir eu hosgoi yn ystod yr amser hwn. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cau oherwydd tywydd garw, y ffliw, ffliw moch, unrhyw epidemig neu bandemig neu afiechydon eraill ac ati.

19. Cymal nad yw'n gymwys

Os yw unrhyw ran o'r cytundeb yn cael ei ganfod gan unrhyw lys neu awdurdod tebyg, i fod yn annilys, anghyfreithlon neu na ellir ei orfodi, bydd y rhan hwnnw yn cael ei dynnu allan, ond bydd gweddill y cytundeb yn parhau.

20. Newidiadau i'r telerau ac amodau hyn

20.1 Efallai y byddwn yn newid yr amodau a thelerau hyn lle mae newid o'r fath yn deillio o newidiadau mewn rheoliadau neu ddeddfwriaeth sy'n effeithio arnom.

20.2 Dim ond gyda chytundeb ysgrifenedig penodol gennych chi y gallwn newid unrhyw delerau eraill.

21. Dim telerau eraill

Mae pob parti yn cydnabod, wrth ymrwymo i'r cytundeb, nad yw wedi dibynnu ar unrhyw beth a ddywedwyd neu a ysgrifennwyd nad yw wedi'i ysgrifennu yn y cytundeb. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod twyll wedi cymryd lle

22. Aseiniad

Mae'r cytundeb yn bersonol i chi. Ni fyddwch, heb ein caniatâd ysgrifenedig, yn trosglwyddo i unrhyw un arall unrhyw un o'ch hawliau neu rwymedigaethau o dan y cytundeb.

23. Hawliau trydydd parti

Ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb unrhyw hawliau oddi tano neu mewn cysylltiad ag ef.

24. Deddf ac awdurdodaeth lywodraethol

Bydd y cytundeb, ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n codi ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu ei destun neu ffurfiad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau anghytundebol), yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr. Bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth unigryw i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad o'r fath.